Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-14-18 PTN5

Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

11 Mehefin 2018

Annwyl Simon

Wrth gyhoeddi Cyllideb 2018-19 yr hydref diwethaf, cyfeiriwyd at y cyfyngiadau a'r effaith y mae'r cyni a'r ansicrwydd cyllidol parhaus yn ei chael ar ein gallu i ddarparu sicrwydd ariannol tymor hirach i'n gwasanaethau cyhoeddus. Er gwaethaf hyn, cyhoeddwyd cynlluniau refeniw dwy flynedd (2018-19 a 2019-20) sef y cyfnod y mae gennym setliad refeniw cadarn ar ei gyfer. Wrth i ni ddechrau ar y cyfnod cynllunio manwl ar gyfer Cyllideb 2019-20, un o'r ystyriaethau pwysicaf yw'r cyfnod yr ydym yn cyhoeddi cynlluniau refeniw ar ei gyfer.

Ar hyn o bryd mae gennym setliad cyllid refeniw ar gyfer 2019-20 a setliad cyfalaf hyd at 2020-2021. Yn Natganiad y Gwanwyn eleni, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fwriad i gynnal Adolygiad o Wariant yn 2019, a fydd yn gosod faint o gyllid fydd ar gael i'w wario ar gyfer 2020-21 a thu hwnt. Ni chafwyd unrhyw gadarnhad gan Lywodraeth y DU ynghylch hyd nac amseriad yr Adolygiad o Wariant hyd yma. Fel y gwyddoch, ein huchelgais bob tro yw cyhoeddi cynlluniau am gyfnod hwy na 12 mis, ond mae angen cydbwyso hyn gyda'n gallu i ddarparu rhagdybiaethau cynllunio realistig a synhwyrol. Yn sgil yr ansicrwydd cyllidol parhaus, ynghyd â'r ansicrwydd pellach sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE, rydym wedi

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

penderfynu cyhoeddi cynlluniau refeniw ar gyfer 2019-20 yn unig, yn yr hydref, gyda chynlluniau cyfalaf ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, 2019-20 a 2020-21.

Byddwn yn cynnwys dadansoddiad o ragamcanion cyllidol tymor hirach i'w defnyddio wrth lunio senarios ar gyfer gwariant adnoddau a chyfalaf yn y dyfodol yng Nghymru yn adroddiad y Prif Economegydd, a fydd yn cael ei gyhoeddi wrth ochr y Gyllideb ddrafft yn 2018.

Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU

Mae Adolygiad o Wariant 2019 Llywodraeth y DU hefyd yn debyg o effeithio ar amseriad Cyllideb 2020-21. Mewn blwyddyn arferol, a phan fo gennym sicrwydd o ran setliadau cyllido ar gyfer y dyfodol, y bwriad yw cyhoeddi Cyllideb derfynol erbyn diwedd tymor yr hydref, gan ddarparu sicrwydd cynnar i'n partneriaid ynghylch cynlluniau gwario ar gyfer y dyfodol. Y flwyddyn nesaf, ni fyddwn yn gwybod beth fydd ein setliad ar gyfer 2020-21 a thu hwnt nes i Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU gael ei gwblhau a'i gyhoeddi.

Mewn blynyddoedd lle na gyhoeddwyd canlyniadau Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU nes yn hwyr yn yr hydref, fel 2010 a 2015, ystyriwyd y byddai'n briodol oedi cyhoeddi ein cynlluniau ein hunain. Rwy'n gobeithio y gall Cyllideb 2020-21 ddilyn amserlen ddangosol debyg i'r un a ddilynwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol, gan gyhoeddi Cyllideb ddrafft o fewn 4 wythnos i gyhoeddiad Llywodraeth y DU.

Yr effaith debygol ar amserlen y Gyllideb yw y byddai Llywodraeth Cymru yn debyg o gynnig amserlen graffu sy'n llai na 8 wythnos fel y rhagwelwyd o fewn protocol y gyllideb a gytunwyd llynedd. Byddaf, wrth gwrs, yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid wrth i'r amserlen ddatblygu.

Ni fydd yn bosib gwneud cynlluniau pendant nes i ni gael syniad am amseriad casgliadau Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, ond roeddwn am roi rhybudd cynnar nawr ei bod yn debygol y bydd angen i ni gydweithio'r flwyddyn nesaf i gytuno ar ffordd ddiwygiedig o edrych ar broses y gyllideb, gan ystyried yr amgylchiadau eithriadol.

Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance